# Picasso



| | |
|---|---|
| Pwy: | Pablo Picasso |
| Dod o: | Sbaen |
| Geni: | 25 Hydref 1881, Málaga, Sbaen |
| Marw: | 8 Ebrill 1973, Mougins, Ffrainc |
| Gwaith: | Artist |



Artist oedd Picasso. Ei enw llawn oedd Pablo Diego José Francisco de Paula Juan Nepomuceno María de los Remedios Cipriano de la Santísima Trinidad Martyr Patricio Clito Ruíz y Picasso.



Roedd e'n dod o Sbaen, lle roedd ei dad e'n artist ac yn athro celf. Roedd Picasso'n dda iawn am dynnu lluniau a pheintio pan oedd e'n ifanc iawn.

Roedd Picasso'n artist enwog iawn. I ddechrau, roedd e'n peintio mewn arddull realistig ond wedyn roedd e'n hoffi arddull ciwbiaeth. Roedd e'n gwneud gwaith collage, cerfluniau, tapestrïau a gwaith cerameg hefyd.

Mae ei luniau e'n costio llawer iawn o arian mae un o'r lluniau'n costio dros gan miliwn o bunnau (£100,000,000). Bobl bach!

| | | | |
|---|---|---|---|
| geni | to be born | pan oedd e'n ... | when he was ... |
| marw | to die | arddull, arddulliau | style, styles |
| gwaith | work | wedyn | afterwards |
| lle | where | cerfluniau | sculptures |
| celf | art | | |